

# **CYNRYCHIOLYDD ACADEMIADD**



**Llawlyfr Cynrychiolwyr  
Academaidd**

**Undeb Myfyrwyr Aberystwyth**

# Llongyfarchiadau!

Byddwch yn ymuno â chymuned o dros 280 o gynrychiolwyr ar draws 18 adran, yma ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fel Cynrychiolydd Academaidd, chi yw llais myfyrwyr, a byddwch yn gweithio gyda'ch adran, y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i helpu â chreu newid a gwella'ch addysg.

Bydd y llawlyfr hwn yn eich darparu â phopeth sydd angen i chi ei wybod a chymorth i'ch helpu chi i lwyddo yn eich rôl. Ond os oes angen unrhyw help arnoch chi yn ystod y flwyddyn, mae croeso i chi gysylltu â rhywun yn Undeb y Myfyrwyr. Mae'r manylion cysylltu i'w gweld ar ddiwedd y llawlyfr!

## Cynnwys

<b>Eich Rôl</b> .....	3
<b>Disgwyliadau</b> .....	4
<b>Hintiau Handi ar gyfer bod yn Gynrychiolydd Academaidd Effeithiol!</b> .....	5
<b>UMAber – Eich Undeb Myfyrwyr</b> .....	6
<b>Sut mae Cynrychiolwyr Academaidd yn ffitio i mewn?</b> .....	7
<b>Syniadau Myfyrwyr a Gwneud Penderfyniadau</b> .....	8
<b>Y Cylch Adborth</b> .....	9
<b>Casglu Adborth</b> .....	10
<b>Mathau o adborth</b> .....	11
<b>Pwyllgorau Ymgynghorol Staff Myfyrwyr</b> .....	12
<b>Myfyrwyr yn Cadeirio</b> .....	13
<b>Cynrychiolwyr Cyfadran</b> .....	14
<b>Cyfleoedd Pellach a Gwirfoddoli</b> .....	15
<b>Cydnabyddiaeth</b> .....	16
<b>Sefyll yn ein Hetholiadau</b> .....	17
<b>Dyddiadau ar gyfer dyddiadur 2020/21</b> .....	18
<b>Esbonio Jargon</b> .....	19
<b>Cysylltiadau Allweddol</b> .....	20



## Eich Rôl

Fel cynrychiolydd, rydych chi'n rhywun sydd wedi cael ei ddewis i siarad ar ran myfyrwyr eraill. Mae eich rôl fel Cynrychiolydd Academaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod barn myfyrwyr yn cael ei chynrychioli a'i bwydo'n ôl fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau yn eich adran, ac ar draws y Brifysgol.

Drwy weithio gyda'ch adran i godi materion a rhoi camau gweithredu ar waith, gallwch chi helpu i ddylanwadu ar newid cadarnhaol a fydd yn gwella addysg a phrofiad myfyrwyr y presennol a'r rheiny a ddaw yn y dyfodol!

Mae eich rôl yn un gydweithredol iawn, ac yn sgil ymgymryd â'r rôl, byddwch yn meithrin perthynas gadarnhaol rhwng staff, myfyrwyr a chynrychiolwyr academaidd eraill.

Cofiwch fod yn adweithiol, yn ogystal â rhagweithiol! Nid yn unig ydych chi'n gweithredu fel llais y myfyrwyr i godi materion, fel a phan fyddant yn codi; ond mae angen i chi hefyd ddod o hyd i ddatrysiadau i broblemau a bod yn ymwybodol ac yn barod i wella pethau drwy siarad â staff a myfyrwyr gydol y flwyddyn.

Mae rôl cynrychiolwyr yn cael ei chymryd o ddifri yn Aberystwyth, a gallwch ddysgu mwy trwy ddarllen ein polisi cynrychiolaeth myfyrwyr

<https://www.aber.ac.uk/en/academic-registry/handbook/student-support/name-193320-en.html>



## Disgwyliadau

### Fel cynrychiolydd academiaidd, bydd disgwyl i chi wneud y canlynol:

- Mynychu sesiynau hyfforddi Undeb y Myfyrwyr.
- Cyflwyno'ch hun i fyfyrwyr, darlithwyr a chynrychiolwyr eraill yn eich adran – dylai pawb fod yn gwybod pwy ydych chi, a'u bod yn gallu cysylltu â chi!
- Casglu adborth cytbwys, cadarnhaol a negyddol, ynglŷn â phrofiadau myfyrwyr ar eich cwrs a/neu eich adran.
- Mynychu Pwyllgorau Ymgynghorol Staff-Myfyrwyr yn eich adran i gyflwyno adborth i'ch cyd-gynrychiolwyr a staff.
- Gweithio'n broffesiynol ar y cyd â Staff, Cynrychiolwyr Academiaidd a'r Swyddog Materion Academiaidd.
- Adrodd yn ôl ar weithrediadau neu ddeilliannau adborth i'r myfyrwyr rydych chi'n eu cynrychioli yn eich adran, yn ogystal ag Undeb y Myfyrwyr
- Cyfeirio myfyrwyr at aelod staff, swyddog neu wasanaeth priodol pan fydd mater o bosib yn fwy personol i'r unigolyn, neu pan na fydd y broblem yn gysylltiedig â'r cwrs.

### Yn gydnabyddiaeth, bydd UMABer yn:

- Rhoi cymorth a chynghor i chi pan fydd eu hangen.
- Gosod eich e-bost fel Cynrychiolydd Academiaidd ac ychwanegu eich rôl at 'Canfod fy Nghynrychiolydd' ar Wefan Undeb y Myfyrwyr a'ch Cofnod Myfyriwr.
- Eich darparu â hyfforddiant a chyfleoedd ychwanegol.
- Rhoi digon o rybudd i chi ynglŷn ag unrhyw gyfarfodydd yr hoffem i chi eu mynychu.
- Eich cadw'n gyfoes gyda chylchlythyron rheolaidd yn ystod y tymor.
- Sicrhau y caiff eich cyfraniad at y profiad academiaidd ei gydnabod.

### Yr hyn nad yw Cynrychiolwyr Academiaidd yn ei wneud

Nid eich cyfrifoldeb chi fel cynrychiolydd academiaidd yw mynd ynghlwm ym mhroblemau personol, trafferthion academiaidd neu gwynion unigol myfyrwyr, gan gynnwys:

- Anghydfod rhwng myfyrwyr a staff academiaidd neu fyfyrwyr unigol, gan gynnwys honiadau o aflonyddu, camwahaniaethu neu erledigaeth.
- Gweithdrefnau ffurfiol gan gynnwys estyniadau, amgylchiadau arbennig, honiadau o ymddygiad academiaidd annheg, apeliadau academiaidd, y broses adolygu derfynol, cwynion unigol neu weithdrefnau disgyblu a.y.b.
- Ymholiadau ynghylch arian neu gyllido gan gynnwys cyllid myfyrwyr a dyled a.y.b.
- Problemau personol gan gynnwys materion iechyd, boed hynny'n ymwneud â thai, cyflogaeth, mewnfudo neu lesiant.

Mae angen arbenigedd a gwybodaeth fanwl i ymdrin â'r materion hyn i sicrhau bod modd cynnig y cyngor a'r arweiniad gorau. Cyfeiriwch fyfyrwyr at Wasanaeth Cyngori Undeb y Myfyrwyr neu Ganolfan Groeso'r Myfyrwyr am gymorth (gweler manylion cyswllt tua diwedd y llawlyfr).



## Hintiau Handi ar gyfer bod yn Gynrychiolydd Academaidd Effeithiol!

- **Does dim rhaid i chi aros tan gyfarfod eich PYSM...** gall tynnu sylw aelod staff yn eich adran neu Undeb y Myfyrwyr at broblem cyn gynted â phosib yn aml sicrhau bod problemau ar y ffordd i gael eu datrys, yn hytrach na chael eu gadael tan eich cyfarfod nesaf.
- **Amrywiwch y ffordd rydych yn gofyn am adborth...** boed hynny'n gyfryngau cymdeithasol, e-byst, dosbarthu pad ysgrifennu ar ddechrau darlith er mwyn i eraill roi eu sylwadau neu'n sgwrsio â myfyrwyr cyn neu ar ôl darlithoedd, mae amrywiaeth o ffyrdd y gallwch gasglu adborth. Ceisiwch ddod o hyd i o leiaf 2 ffordd sy'n gweithio i chi a'r myfyrwyr rydych chi'n eu cynrychioli
- **Gweithiwch gyda'ch cyd-gynrychiolwyr ...** mae cwrdd a siarad â chynrychiolwyr eraill yn eich adran (yn enwedig yn eich grŵp blwyddyn) yn ffordd wych o gael adborth gan nifer fwy o fyfyrwyr. Gallwch hefyd rannu'r llwyth gwaith a chymharu nodiadau i gael dealltwriaeth fwy trylwyr o'r materion a'r datrysiadau a all godi.
- **Dilynwch gynnydd eich adborth...** drwy gadw cofnod o'r materion y mae myfyrwyr wedi'u codi a'r cynnydd a wnaed; Bydd hyn o gymorth i chi adborthi'r deilliannau cywir, neu eich atgoffa i ailgodi unrhyw adborth sydd heb ei ddatrys.
- **Rhannwch ddyddiadau eich PYSM ...** Sicrhewch fod myfyrwyr yn ymwybodol o'r cyfarfodydd; drwy rannu'r dyddiadau bydd myfyrwyr yn gweld eich bod yn cymryd rhan weithgar, ond byddant hefyd yn gwybod bod ganddynt gyfle i roi adborth.
- **Dwedwch wrthym am eich llwyddiannau...** rydym yn gwybod bod llawer o gynrychiolwyr yn gweithio'n galed i greu newid cadarnhaol ar eu cyrsiau, ond mae sicrhau bod pobl eraill yn ymwybodol o'r rhain yr un mor bwysig. Sicrhewch fod y myfyrwyr yr ydych yn eu cynrychioli, cynrychiolwyr cyfadrannau a staff yr Undeb Myfyrwyr i gyd yn gwybod beth sy'n digwydd!
- **Canolbwyntiwch...** byddwch yn effro drwy gydol y flwyddyn a gwyliwch allan am unrhyw broblemau ac adborth. Efallai y bydd lefel ymgysylltiad yn anghyson, ond cofiwch fod yn greadigol a gwneud yr hyn sydd orau i chi a'r myfyrwyr rydych chi'n eu cynrychioli!
- **Mae'n bwysig mynychu hyfforddiant a cheisio cymorth pan fydd ei angen...** peidiwch â bod ofn gofyn am help os oes ei angen. Os nad ydych yn siŵr â phwy y dylech siarad, cysylltwch â'r Cydlynnydd Cynrychiolaeth Academaidd drwy e-bostio [alg51@aber.ac.uk](mailto:alg51@aber.ac.uk).



## UMAbber – Eich Undeb Myfyrwyr

**Cennad:** Rydyn ni am i fyfyrwyr Aber garu bywyd myfyrwyr

**Gweledigaeth:** Dylai myfyrwyr Aber fod yn hapus, yn iach ac wedi'u grymuso, gyda dyfodol disglair a chyfeillgarwch sy'n para am oes.

### Addewidion:

- Byddwn yn darparu cyfleoedd i chi ddod o hyd i'ch **cymuned Aber**
- Byddwn yn **ddylanwad cadarnhaol** dros fyfyrwyr
- Byddwn yn rhoi cymorth i chi fod yn **hapus** ac yn **iach**
- Byddwn yn helpu i dyfu eich **sgiliau** a'ch **profiadau**

### Gwerthoedd:

- Rydyn ni'n cael ein **llywio gan fyfyrwyr** – Eich llais chi sy'n cyfrif fwyaf
- Rydyn ni'n **gymuned** – Rydyn ni am i chi gyfranogi
- Rydyn ni'n **dryloyw** – Rydyn ni bob amser yn onest ac yn agored
- Rydyn ni'n **uchelgeisiol** – Rydyn ni'n datblygu ar gyfer y dyfodol
- Rydyn ni'n **caru'r Gymraeg** – Rydyn ni'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

**Mae pob myfyriwr yn y Brifysgol yn aelod o Undeb y Myfyrwyr!** Mae hyn yn golygu y gallwch gael gfael ar yr holl gefnogaeth a chyfleoedd rydyn ni'n eu darparu. Cynrychiolir eich anghenion a'ch buddiannau hefyd gan ein 5 Swyddog Llawn-amser.

Er mai'r Brifysgol yw ein prif gyllidwr, elusen annibynnol yw UMAber sy'n gweithio er budd myfyrwyr, gan ganolbwyntio ar weithgareddau'r aelodaeth a datblygiad myfyrwyr.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: [www.umaber.co.uk/ynqlynagaber](http://www.umaber.co.uk/ynqlynagaber)



## Sut mae Cynrychiolwyr Academaidd yn ffitio i mewn?

**Dros 7000 o fyfyrwyr**

**250+ Cynrychiolwyr Academaidd a 600 Arweinwyr  
Chwaraeon / Cymdeithasau**

**17 Swyddogion Gwirfoddol**

**5 Swyddogion  
Llawn-amser**

Fel Cynrychiolydd Academaidd, rydych chi'n un o nifer fawr o arweinwyr myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr.

Mae'r strwythur 'pyramid' hwn yn caniatáu adborth a syniadau i symud yn gyflym rhwng myfyrwyr.

Mae Cynrychiolwyr Academaidd yn helpu i adborthi barn myfyrwyr i'ch adran, yn ogystal ag i'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr.

Ymysg y swyddogion gwirfoddol mae Swyddogion Cyfadran. Myfyrwyr etholedig yw'r rhain, sy'n cynrychioli llais myfyrwyr ar draw pob adran o fewn y gyfadran honno. Maen nhw'n mynychu Pwyllgorau Materion Academaidd y Gyfadran (PMAG), ac yn rhannu'r materion hynny maent wedi'u casglu gan Fyfyrwyr, Cynrychiolwyr Academaidd ac o gofnodion PYSM.

Fel Cynrychiolwyr Academaidd, gellir trosglwyddo'r adborth y byddwch chi'n ei gasglu i'ch adran, Swyddogion Cyfadran neu'r Swyddogion Llawn-amser. Mae eich Swyddogion Llawn-amser yn gyfrifol, ar y cyd, am hyrwyddo ac amddiffyn hawliau myfyrwyr, ymgyrchu ar faterion o bwys a hyrwyddo cyfranogiad yng Ngweithgareddau'r Undeb. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod anghenion a buddiannau myfyrwyr yn cael eu cynrychioli, a hynny weithiau ar y lefel uchaf o fewn y Brifysgol.



## Syniadau Myfyrwyr a Gwneud Penderfyniadau

Mae UMAber yn cael ei arwain gan fyfyrwyr – o'r swyddogion sy'n cael eu hethol i arwain ein Gwaith, i'r adborth a syniadau sy'n tyfu i ffurfio ein polisiau craidd, ein hymgyrchoedd a'n hymrwymadau

Er y gallwch chi e-bostio neu fynd i siarad â Swyddogion, mae yna ffyrdd eraill strwythuredig y gallwch chi ddarparu adborth i'ch Cynrychiolydd Cyfadran a'r Swyddogion Llawn-amser.



**Parthau** - Fe'ch gwahoddir i 3 y flwyddyn. Fforymau trafod yw'r rhain sy'n rhoi cyfle i chi rannu syniadau ac adborth, a bwydo i mewn i waith y Swyddogion Llawn-amser.

**Senedd:** Mae eich Cynrychiolwyr Cyfadran yn aelodau o'r Senedd, ac mae ganddyn nhw bleidlais; fe ddylen nhw fynychu pob un o'r 3 chyfarfod Senedd a gynhelir yn ystod y flwyddyn. Y Senedd yw prif gorff UMAber ar gyfer gwneud penderfyniadau a gosod polisi. Er na allwch chi bleidleisio fel Cynrychiolydd Academaidd, gallwch chi neu unrhyw fyfyrwr fynychu'r cyfarfod a chyflwyno syniadau ar gyfer trafodaeth.

**Cyflwyno Syniad** - Gall unrhyw fyfyrwr gyflwyno syniad i'r UM â'r nod o awgrymu newidiadau a helpu i wella profiad myfyrwyr.

I gyflwyno syniad, y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw mynd i -

<https://www.umaber.co.uk/llywioaber/eichsyniadau/>


### Ymdrinnir â'ch syniadau mewn dwy ffordd:

1. Os oes datrysiad hawdd a dim gwrthwynebiad i'ch syniad, rydyn ni'n galw hwn yn 'ateb cyflym' a byddwn yn gwneud iddo ddigwydd! Mae'r ffyrnau microdon a'r loceri Amazon yn yr UM yn enghreifftiau da o ateb cyflym.
2. Caiff eich syniad ei drafod yn y Senedd. Grŵp o gynrychiolwyr etholedig yw hwn, sy'n adolygu ac yn trafod syniadau a gyflwynir. Os caiff eich syniad ei basio yn y Senedd, bydd yn dod yn bolisi ac mae'n ddyletswydd ar y swyddogion llawn-amser i'w wireddu!





## Y Cylch Adborth



- 1. Siaradwch â myfyrwyr...** a dynodwch faterion neu sylwadau allweddol sydd ganddynt ynglŷn â'r cwrs, yr adran neu'r Brifysgol.
- 2. Dangoswch dystiolaeth o'ch pwynt...** gan ddefnyddio sylwadau, data, ystadegau, adroddiadau neu chwilio ar wefannau prifysgolion eraill i gael gwybod beth yw eu polisiau a'u harferion.
- 3. Codwch adborth gyda staff...** ar yr adeg hon, y prif ddiben yw rhannu adborth a'ch dystiolaeth â'r aelod staff mwyaf perthnasol, naill ai cyn neu yn ystod cyfarfod eich PYSM.

Cofiwch rannu'r hyn sy'n gweithio'n dda. Ble mae problemau, os ydych yn teimlo y gallwch wneud hynny, cynigiwch ddatrysiadau iddynt. Yn aml, gall datrysiadau a gynigir ganolbwyntio ar ddeiliant cadarnhaol a gallant gynnwys syniadau na chaiff eu hystyried gan y staff.

- 4. Rhowch adborth i fyfyrwyr...** deilliannau cyfarfodydd, sy'n cynnwys a yw'r deilliannau'n cael eu gweithredu neu'n amhosib eu cyflawni. Mae'n hollbwysig i Gynrychiolwyr Academaidd yn cael eu gweld yn effeithiol, a bod myfyrwyr yn ymwybodol o bwy ydynt a'r hyn maent yn ei gyflawni.

## Casglu Adborth

Sgîl allweddol er mwyn bod yn Gynrychiolydd Academaidd yw eich gallu i gasglu adborth a gwybodaeth a'u cyfathrebu i amrywiaeth o gynulleidfaoedd, yn aml mewn lefelau amrywiol o fanylder.

Isod, mae rhai ffyrdd o gasglu adborth a chyfathrebu pwy ydych chi a beth yw eich rôl, ond cofiwch, peidiwch â bod ofn defnyddio eich syniadau eich hun.

### Cyhoeddiadau mewn Darlithoedd

Mae gofyn i'ch darlithiwr am 5-10 munud ar ddechrau neu ar ddiwedd eich darlith yn ffordd syml o siarad â'r rheiny rydych yn eu cynrychioli. Gallech ddsbarthu nodiadau post-it cyn i'r ddarlith ddechrau neu osod blwch pleidleisio tua blaen yr ystafell ar gyfer adborth ysgrifenedig dienw.

### Cyfyngau cymdeithasol

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn defnyddio'r cyfyngau hyn eisoes fel modd o gael gwybodaeth a chyfathrebu â phobl eraill. Mae'n bosib bod eich cwrs/adran eisoes yn defnyddio tudalen. Os nad yw, beth am greu un gyda'ch cyd-gynrychiolwyr.

### Arolygon barn ar-lein

Mae yna ffyrdd defnyddiol o gasglu tystiolaeth ac ystadegau ynghylch mater penodol ac i ddangos yr hyn mae myfyrwyr yn ei feddwl. Mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gael am ddim ar-lein ar gyfer llunio arolygon, ac yn hollbwysig, maent hefyd yn caniatáu darparu adborth yn ddiennw. Meddyliwch am hyd yr arolwg a sut yr ydych yn geirio arolygon i sicrhau'r ymateb gorau.

### Cymhorthfa, sesiynau galw heibio a grwpiau ffocws anffurfiol


Does dim rhaid i'r rhain fod mor ffurfiol ag y maent yn ymddangos. Gallech roi gwybod i bawb arall ar eich cwrs ble y byddwch chi, a phryd. Efallai y byddwch chi hyd yn oed eisiau gwahodd pobl i gael cinio gyda'i gilydd a dod â chacennau neu fisgedi a.y.b. i wneud yr achlysur yn fwy deniadol a chymdeithasol!

### E-byst

Gallwn osod e-bost Cynrychiolydd Myfyrwyr fel y gallwch chi gysylltu'n uniongyrchol â myfyrwyr rydych chi'n eu cynrychioli; does ond angen i chi arwyddo'r cytundeb e-bost. Cofiwch, mae'n bwysig sicrhau nad ydych yn gordefnyddio'r dull hwn o gyfathrebu a sicrhau bod eich neges yn mynnu sylw.

### System Goleuadau Traffig (Yn newid, yn parhau, yn dechrau)

Gallwch ddefnyddio unrhyw un o'r uchod i weithredu'r dull hwn, a thrwy ddefnyddio'r system goleuadau traffig, byddwch chi'n helpu eich hun i gael gafael ar amrywiaeth o adborth cadarnhaol a negyddol, yn ogystal â syniadau a datrysiadau.



## Mathau o adborth

Rydym yn gwybod y gall casglu adborth fod yn anodd, felly i helpu, rydym wedi darparu ambell gwestiwn defnyddiol.

Ni ddylid ystyried y rhain yn rhestr wirio â'r nod o osod tic ym mhob blwch. Yn hytrach, eu diben yw eich helpu i ddeall yn well y meysydd allweddol mae'r Brifysgol yn casglu adborth yn eu cylch.

<p><b>Addysg ar fy nghwrs</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Beth yw eich barn ar ansawdd yr addysgu ar eich cwrs?</li><li>• Sut mae disgwyliadau myfyrwyr, y deilliannau dysgu a chynnwys y cwrs yn cyfateb?</li><li>• Ydy'r dulliau dysgu ac addysgu yn briodol, yn heriol ac yn ysbrydoli?</li></ul>	<p><b>Cyfleoedd/Cymuned ddysgu</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Ydy gweithgareddau ar gyrsiau'n gwella eich gwybodaeth a'ch sgiliau?</li><li>• Oes unrhyw gyfleoedd i gael achrediad proffesiynol?</li><li>• Oes cyfleoedd i weithio fel grŵp?</li><li>• Oes opsiynau i gael profiad ymarferol neu alwedigaethol?</li><li>• A gaiff lleoliadau gwaith eu trefnu'n dda gyda digon o rybudd, mentora ac arweiniad?</li></ul>
<p><b>Asesu ac adborth</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• A gaiff y meini prawf ar gyfer asesu a'r dulliau a ddefnyddir eu deall?</li><li>• Ydy'r adborth yn amserol ac yn ddigon cynhwysfawr iddo fod yn ddefnyddiol?</li><li>• Ydy'r dulliau asesu'n adlewyrchu'r sgiliau a ddefnyddir ar lwybrau gyrfa cyffredin ar gyfer y pwnc?</li><li>• A roddir gwybodaeth ynghylch sut mae osgoi ymarfer academaidd annerbyniol? Pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth honno?</li></ul>	<p><b>Cymorth academaidd</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Pa mor effeithiol yw cymorth gan eich tiwtor personol?</li><li>• Ydych chi'n gyfforddus i gysylltu â'r staff pan fydd angen, ac a oes modd i chi wneud hynny?</li><li>• Ydy'r myfyrwyr yn gwybod sut mae cael cyngor a chymorth ynghylch materion personol?</li><li>• Ydy gwybodaeth ynghylch estyniadau ac amgylchiadau arbennig yn hawdd dod o hyd iddi?</li></ul>
<p><b>Trefniant a rheolaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Ydy eich amserlen yn glir?</li><li>• Oes cyfathrebu clir rhwng y myfyrwyr a'r staff yn eich adran?</li><li>• A gaiff unrhyw gostau ychwanegol ar y cwrs eu hysbysebu a'u hesbonio'n glir?</li><li>• Ydy'r adran yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr am rôl y cynrychiolwyr academaidd?</li><li>• Ydych chi'n cael gwybodaeth am y ffordd mae eich adran yn ymateb i adborth myfyrwyr?</li></ul>	<p><b>Adnoddau dysgu</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Ydy eich rhestrau darllen yn glir?</li><li>• Ydy testunau'r cwrs ac adnoddau cysylltiedig ar gael i'w defnyddio?</li><li>• Ydy'r cyfleusterau TG a'r adnoddau sydd ar gael yn addas i'ch cwrs?</li><li>• Ydy'r manau addysgu ac ymarfer yn addas i'ch anghenion?</li></ul>



## Pwyllgorau Ymgynghorol Staff Myfyrwyr

Pwyllgorau Ymgynghorol Staff Myfyrwyr (PYSM) yw'r mecanwaith ffurfiol y mae cynrychiolwyr academiaidd yn ei ddefnyddio i roi adborth i'r staff, i ganfod datrysiadau i broblemau ac i ddweud wrth eich adran yr hyn sy'n gweithio'n dda.

Mae'n bosib y bydd ffurf pob PYSM yn wahanol, ond bydd gan bob cyfarfod Gynullydd, Cadeirydd (myfyriwr mewn rhai achosion) a rhywun i gymryd cofnodion. Mae gan rai adrannau gyfarfodydd gwahanol ar gyfer grwpiau israddedig ac ôl-raddedig.

Peidiwch â phoeni gormod am ffurf y cyfarfod; yr hyn sy'n bwysig yw pa mor effeithiol y maent o ran rhoi cyfle i chi roi eich adborth ac i wella'r profiad ar eich cwrs.

Eich cyfrifoldeb chi yw mynychu cyfarfod eich PYSM ar ran eich cyfoedion. Os na fydd modd i fynychu cyfarfod, sicrhewch eich bod yn ymddiheuro ac yn rhoi eich adborth i'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

Fel arfer, ar ôl y cyfarfod, cewch ddrafft o'r cofnodion o fewn pythefnos. Os nad ydych yn eu derbyn, peidiwch â bod ofn cysylltu â'r Cynullydd neu'r Cadeirydd. Unwaith i chi gael gafael arnyn nhw, darllenwch nhw i sicrhau eu bod yn gywir a rhowch adborth arnynt os ydych yn credu bod angen gwneud newidiadau.

## Gwneud y gorau o Bwyllgorau Ymgynghorol Staff Myfyrwyr

- **Siaradwch â myfyrwyr...** er gall hyn ymddangos yn amlwg, heb adborth hollbwysig, bydd yn anodd profi eich pwyntiau.
- **Paratowch...** meddyliwch am yr hyn rydych am ei godi yn y cyfarfod. Sicrhewch eich bod yn gwybod pryd a ble mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal, darllenwch y gwaith papur pan gaiff ei ddarparu, a lle bo'n bosib, rhowch adborth cyn y cyfarfod.
- **Byddwch yn gadarnhaol...** byddwch yn adeiladol wrth roi adborth i'r staff a chofiwch mai ffordd ddefnyddiol o wneud hyn yw datgan yr hyn yr hoffai myfyrwyr ei weld **yn dechrau, yn newid** ac **yn parhau** ar eu cwrs.
- **Gofynnwch gwestiynau...** peidiwch â bod ofn gofyn am eglurhad am bwyntiau nad ydych yn sicr yn eu cylch; mae'n ffordd ddefnyddiol o gyfrannu, ac ni fydd disgwyl i chi fod â'r holl atebion.
- **Byddwch yn broffesiynol...** drwy ddadabersonoleiddio sylwadau a sicrhau bod yr adborth yn eglur a phlaen, wrth wrando ar farn pobl eraill a'i deall. Os bydd pobl eraill yn anghytuno â chi neu os bydd ganddynt adborth gwahanol, peidiwch â'i gymryd yn bersonol.
- **Cynrychiolwch bob barn ar eich cwrs...** sicrhewch eich bod yn rhoi disgrifiad cywir o farn y myfyrwyr ar eich cwrs ac nid eich barn chi yn unig.
- **Cadwch eich Cynrychiolydd Cyfadran yn gyfoes...** rhowch wybod iddynt am y mathau o adborth rydych yn eu codi fel bod modd iddynt eich helpu pan fydd angen hynny drwy godi'r mater â Phwyllgor Gwaith yr Athrofa.



## Myfyrwyr yn Cadeirio

Bydd gan bob PYSM berson sy'n cadeirio'r drafodaeth; mewn rhai achosion, gofynnir i Gynrychiolydd Academaidd ymgymryd â'r rôl hon.

Mae UMAber yn annog myfyrwyr i gadeirio cyfarfodydd PYSM, er ei bod yn cydnabod mai rhywun sy'n gallu bod yn ddiuedd, rheoli'r ddadl a hwyluso'r penderfynu sydd orau yn y rôl.

Weithiau, gall hyn arwain at drafferth cydbwysu i'r rheiny sy'n ymgymryd â'r rôl cynrychioli eu cwrs ac yn rheoli'r ddadl. Byddwn yn gwerthuso hyn y flwyddyn sydd i ddod er mwyn mynd i'r afael â'r mater yn y blynyddoedd nesaf.

Hefyd eleni, byddwn yn cyflwyno hyfforddiant ychwanegol sy'n canolbwyntio'n benodol ar Fyfyrwyr yn Cadeirio – byddwn yn rhoi gwybod i chi am y sesiynau hyn yn ein cylchlythyr rheolaidd.

### Hintiau handi i Gadeirio Cyfarfodydd yn effeithiol

- **Paratowch...** cytunwch ar yr agenda gyda'r cynullydd/ysgrifennydd cyn y cyfarfod a siarad â'r cynrychiolwyr eraill i weld pa faterion y byddant yn eu codi fel bod modd i chi flaenoriaethu'r drafodaeth.
- **Byddwch yn bendant ac yn hyderus...** mae'n bwysig eich bod yn rheoli'r cyfarfod, gan sicrhau na fydd llais neb yn dominyddu ac y caiff lleisiau pawb eu clywed.
- **Cydbwyswch y sgwrs...** yn aml, gall siarad mewn cyfarfodydd fod yn brofiad brawychus i gynrychiolwyr, felly mae'n bwysig eu hannog gydol y cyfarfod
- **Cadwch at y testun...** weithiau ni fydd yr adborth yn berthnasol i'r cyfarfod, felly mae'n bwysig sicrhau y caiff ei gyfeirio at fecanweithiau eraill fel Rho Wybod Nawr.
- **Eglurwch weithredoedd...** un ffordd o wneud hyn yw crynhoi'r prif bwyntiau ar adegau perthnasol a gosod dyddiau erbyn pryd y dylid cyflawni gweithredoedd penodol.



## Cynrychiolwyr Cyfadran

Trefnir y Brifysgol yn 3 Gyfadran Academaidd, pob un dan arweiniad Dirprwy Is-Ganghellor gyda chymorth 3 Deon Cyswllt sydd â chyfrifoldebau dros Ddysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr; Darpariaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg ac Ymchwil, Gwybodaeth, Cyfnewid ac Arloesi.

Felly, Cynrychiolwyr Athrofa yw eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer codi adborth ac edrych am ddatrysiadau ar y cyd ar lefel Athrofa. Mae gan bob Athrofa gynrychiolydd israddedig ac ôl-raddedig a gaiff eu hethol bob mis Mawrth ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol; etholir unrhyw rolau gwag mewn isetholiad ym mis Hydref.

Mae rôl Cynrychiolydd Cyfadran yn cynnwys:

- Casglu adborth am brofiadau addysgol myfyrwyr yn eu Cyfadran a chyflwyno'r rhain trwy fynychu cyfarfodydd y Gyfadran megis y Pwyllgor Materion Academaidd.
- Darllen drwy gofnodion PYSM ar draws eu cyfadran
- Mynychu cyfarfodydd y Parth Academaidd a chyfarfodydd eraill fel sy'n briodol i gyflwyno adborth i gyd-gynrychiolwyr a'r staff.
- Adrodd yn ôl ar ddeilliannau'r adborth i fyfyrwyr yn eu Cyfadran ac Undeb y Myfyrwyr.
- Arwain gweithgareddau ac ymgyrchoedd lle bo'n briodol i wella profiad y myfyrwyr.
- Cyfeirio myfyrwyr at aelod staff, swyddog neu wasanaeth priodol pan na fydd modd iddynt ddelio â phroblem eu hunain, neu pan na fydd y broblem yn gysylltiedig â'r cwrs.

Isod mae rhestr o'ch Cynrychiolwyr Cyfadran ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

<b>Cyfadran:</b>	<b>IR/ÔR</b>	<b>Enw</b>	<b>E-bost</b>
Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol	Is-raddedig	Ella Holland	Elh47@aber.ac.uk
Cyfadran Gwyddorau Daear a Bywyd	Is-raddedig	Martina Mclover a Zoe Hayne	Mam160@aber.ac.uk zoh5@aber.ac.uk
Cyfadran Busnes a Gwyddorau Ffisegol	Is-raddedig	Aleksandra Spasova	Ats14@aber.ac.uk
Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol	Ôl-raddedig	Adam Burlingham	Adb37@aber.ac.uk
Cyfadran Gwyddorau Daear a Bywyd	Ôl-raddedig	Ellen Hjort	Elh59@aber.ac.uk
Cyfadran Busnes a Gwyddorau Ffisegol	Ôl-raddedig	Swydd wag	

Am fyw o wybodaeth ewch i

[https://www.umaber.co.uk/llywioaber/cynrychiolwyrmyfyrwyr/cynrychiolwyr\\_cyfadran/](https://www.umaber.co.uk/llywioaber/cynrychiolwyrmyfyrwyr/cynrychiolwyr_cyfadran/)



## Cyfleoedd Pellach a Gwirfoddoli

**Hyfforddiant Ychwanegol** – Rydym am i'n holl wirfoddolwyr deimlo'n hyderus yn y rôl, felly rydym yn darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau gwerthfawr gydol y flwyddyn, o gynllunio ymgyrchoedd i gadeirio cyfarfodydd. Byddwn yn eich cadw'n gyfoes o ran pa sesiynau sydd ar gael, gan ddefnyddio ein cylchlythyr yn ystod y tymor.

**Cynadleddau a Digwyddiadau** – Cynhelir amrywiaeth o gynadleddau a digwyddiadau bob blwyddyn sy'n caniatáu i gynrychiolwyr rwydweithio yn ogystal â datblygu eu sgiliau a'u gwbyodaeth. Cewch gyfle i fynychu, er mai dim ond ychydig o lefydd fydd ar gael gan amlaf.

**UMAbert yn Dathlu** – Rydym yn trefnu gwobrau dysgu dan arweiniad myfyrwyr bob blwyddyn i gydnabod yr aelodau staff sy'n mynd y filltir ychwanegol i greu effaith gadarnhaol ar eich cyfnod yn Aber. Cewch gyfle i enwebu a helpu i feirniadu'r enillwyr yn yr ail dymor.

**Creu Newid** – Rydym yn cefnogi sawl ymgyrch dan arweiniad myfyrwyr bob blwyddyn sy'n ceisio creu newid cadarnhaol, fel gwella'r llyfrgell neu dynnu sylw at yr angen am gyllido ychwanegol ar gyfer chwaraeon. Felly, os oes gennych chi syniad, dewch draw am sgwrs neu cysylltwch â ni!

Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.umaber.co.uk/eichsyniadau](http://www.umaber.co.uk/eichsyniadau)

## Gwirfoddoli Myfyrwyr

Mae yna gyfleoedd pellach i gymryd rhan yn UMAber drwy wirfoddoli myfyrwyr. Chi gaiff ddewis y math o wirfoddoli a faint o amser byddwch chi'n ei gyfrannu y tu hwnt i'ch astudiaethau. Mae gennym gyfleoedd gwirfoddoli parhaus ac untro (diwrnod gweithredu).

I ddarganfod mwy, ewch i [www.umaber.co.uk/gwirfoddoli](http://www.umaber.co.uk/gwirfoddoli)  
[www.umaber.co.uk/timaber/gwirfoddoli/cyfleoeddcyfredol/](http://www.umaber.co.uk/timaber/gwirfoddoli/cyfleoeddcyfredol/)



Mae bod yn **Fyfyriwr Adolygydd** yn rôl wirfoddoli sy'n cydfynd â bod yn Gynrychiolydd Academaidd.

Mae Myfyrwyr Adolygwyr yn sicrhau bod cyrsiau newydd a chyfredol yn parhau i ddiwallu anghenion myfyrwyr. Fe gewch gyfle i weld 'tu ôl i'r llenni' ynghylch sut mae cyrsiau a modiwlau yn cael eu datblygu, a chwrdd â staff i helpu gyda'r broses adolygu.

Ar ôl mynychu hyfforddiant, gellir estyn gwahoddiad i chi gyfranogi mewn paneli adolygu a chymeradwyo cynlluniau o bryd i'w gilydd. Dyma ble rydych chi'n adolygu dogfennau, yn gofyn cwestiynau ac yn rhoi adborth o safbwynt myfyrwyr i helpu staff ystyried y ffordd orau o sicrhau profiad cadarnhaol i fyfyrwyr ar gyrsiau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.

Am fwy o wybodaeth neu i wneud cais, ewch i: [www.umaber.co.uk/myfyrwyradolygwyr](http://www.umaber.co.uk/myfyrwyradolygwyr)



## Cydnabyddiaeth

Cyflwynir Tystysgrif Gydnabyddiaeth ar ddiwedd y sesiwn heddiw a chaiff y rôl ei chynnwys yn eich Cofnod Cyrhaeddiad Addysg Uwch ar ddiwedd y flwyddyn.

UM Aber yn Dathlu - Efallai y cewch eich enwebu ar gyfer Cynrychiolydd Academaidd y Flwyddyn fel rhan o'n Gwobrau Staff a Myfyrwyr!

Gallwch weithio tuag at un o'n tystysgrifau Gwobr Aber drwy gofnodi eich oriau gwirfoddoli a'ch sgiliau.



I gael gwybod mwy neu gofrestru fel gwirfoddolwr, ewch i [www.umabersu.co.uk/timaber/gwirfoddoli/lcofnodieichoriau/](http://www.umabersu.co.uk/timaber/gwirfoddoli/lcofnodieichoriau/)

Mae bron unrhyw beth a wnewch fel Cynrychiolydd Academaidd yn cyfrif fel oriau gwirfoddoli, h.y. casglu adborth, mynychu hyfforddiant, cysylltu â myfyrwyr a mynychu PYSM. Dim ond digwyddiadau cymdeithasol a theithio sydd ddim yn cyfrif tuag at eich oriau.

## Llwyddiant Cynrychiolwyr

Rydym am ddatlu llwyddiant gwaith caled ein cynrychiolwyr academiaidd drwy'r amser. Felly, peidiwch â bod yn ddiymhongar. Dwedwch wrthym am y pethau gwych rydych yn eu gwneud yn y rôl a'ch effaith ar wella'r profiad academiaidd.

Byddwn yn postio ar gyfryngau cymdeithasol ac yn cyfrannu at gylchlythyron gydag erthyglau sy'n dathlu eich gwaith, felly sicrhewch eich bod yn cael eich cynnwys.

Os ydych chi wedi cael unrhyw lwyddiant eleni neu os ydych chi wedi helpu i greu newid (mawr neu fach), cysylltwch â [alg51@aber.ac.uk](mailto:alg51@aber.ac.uk). Byddwn ni hefyd yn cysylltu â chi drwy gydol y flwyddyn i gasglu'ch llwyddiannau.



## Sefyll yn ein Hetholiadau

Mae UMaber yn defnyddio etholiadau democrataidd i benderfynu pwy ddylai siarad a gweithio ar eich rhan ar amryw o faterion tra byddwch chi'n fyfyrwr yn Aberystwyth. Mae'r cyfnod enwebu'n agor tua dechrau Ionawr a chynhelir yr etholiadau fis Mawrth bob blwyddyn, ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol.

## Sefyll Etholiad

Rydym yn annog pob myfyrwr i ystyried sefyll dros un o'r amrywiaeth o rolau sydd ar gael, wedi'u rhannu'n fras yn ddau fath:

**Rolau Swyddogion Llawn-amser** – Rolau cyflogedig yw'r rhain y tu hwnt i astudiaethau. Maent yn cynrychioli pob myfyrwr ac yn siarad ar eu rhan, ac ar y cyd, maen nhw'n gyfrifol am hyrwyddo ac amddiffyn hawliau myfyrwyr, ymgyrchu ar faterion o bwys, hyrwyddo cyfranogiad yn yr Undeb a chydlynu parthau a grwpiau o fyfyrwyr.

**Rolau Swyddogion Gwirfoddol a Chynrychiolwyr Cyfadran** – Mae'r rolau hyn yn rhai gwirfoddol, sy'n cyd-redeg â'ch astudiaethau. Mae gan bob rôl gyfrifoldeb penodol ac mae rhai ohonynt yn cynrychioli buddiannau neu grwpiau penodol o fyfyrwyr – o'r herwydd, dim ond myfyrwyr sy'n diffinio i'r grwpiau penodol hynny o fyfyrwyr all sefyll neu bleidleisio dros y rolau hyn.

## Pam ddylai myfyrwyr bleidleisio?

Bwriad etholiadau'r swyddogion yw penderfynu pwy fydd yn cynrychioli myfyrwyr ac yn gwneud penderfyniadau ar eu rhan yn y flwyddyn sydd i ddod. Hyd yn oed os na fyddant yn sylweddoli hynny, mae deilliannau'r etholiadau'n berthnasol i bob myfyrwr, gan y bydd ein swyddogion llawn-amser yn eu cynrychioli ar amrywiaeth o faterion, fel addysg, cymorth a chyfleoedd. Y cwestiwn yw, pam na fyddech chi'n pleidleisio!

Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.umaber.co.uk/etholiadau](http://www.umaber.co.uk/etholiadau)



## Dyddiadau ar gyfer dyddiadur 2020/21

<b>Tymor / Semester 1</b>	
20 <sup>fed</sup> Medi – 11 <sup>eg</sup> Hydref	Dechrau'r Cyfnod Sefyll – Is-Etholiadau'r Hydref
4 <sup>ydd</sup> – 7 <sup>fed</sup> Hydref	Parthau
18 <sup>fed</sup> Hydref	Dyddiad cau ar gyfer Cyflwyno Syniadau i'r Senedd
18 <sup>fed</sup> – 22 <sup>ain</sup> Hydref	Pleidleisio – Is-Etholiadau'r Hydref
1 <sup>af</sup> Tachwedd	Senedd
15 <sup>fed</sup> – 18 <sup>fed</sup> Tachwedd	Parthau
22 <sup>ain</sup> Tachwedd	Dyddiad cau ar gyfer Cyflwyno Syniadau i'r Cyfarfod Mawr
18 <sup>fed</sup> Tachwedd	Ffair Tai a Llety
6 <sup>ed</sup> Rhagfyr	Y Cyfarfod Mawr

<b>Tymor / Semester 2</b>	
1 <sup>af</sup> Ionawr – 22 <sup>ain</sup> Chwefror	Dechrau'r Cyfnod Sefyll – Etholiadau'r Gwanwyn (Swyddogion Llawn-amser a Gwirfoddol)
10 <sup>fed</sup> – 21 <sup>ain</sup> Ionawr	Wythnosau Llacio Straen Arholiadau
1 <sup>af</sup> – 4 <sup>ydd</sup> Chwefror	Parthau
7 <sup>fed</sup> – 13 <sup>eg</sup> Chwefror	Wythnos Myfyrwyr yn Gwirfoddoli
7 <sup>fed</sup> Chwefror	Dyddiad cau ar gyfer Cyflwyno Syniadau i'r Senedd
21 <sup>ain</sup> Chwefror	Senedd
28 <sup>ain</sup> Chwefror – 3 <sup>ydd</sup> Mawrth	Parthau
7 <sup>fed</sup> Mawrth	Dyddiad cau ar gyfer Cyflwyno Syniadau i'r Senedd
14 <sup>eg</sup> – 18 <sup>fed</sup> Mawrth	Pleidleisio – Etholiadau'r Gwanwyn
21 <sup>ain</sup> Mawrth – 25 <sup>ain</sup> Ebrill	Dechrau'r Cyfnod Sefyll – Is-Etholiadau'r Gwanwyn (Cynrychiolwyr Academaidd)
18 <sup>fed</sup> Mawrth	Senedd
2 <sup>il</sup> – 6 <sup>ed</sup> Mai	UMAberr yn Dathlu
11 <sup>eg</sup> – 13 <sup>eg</sup> Mai	Pleidleisio – Is-Etholiadau'r Gwanwyn
9 <sup>fed</sup> – 27 <sup>ain</sup> Mai	Wythnosau Llacio Straen Arholiadau

**Mae dyddiadau allweddol ychwanegol, gan gynnwys gwyliau a dyddiadau calendr cenedlaethol a rhyngwladol, i'w gweld ar siart-wal UMAber a thrwy dudalennau digwyddiadau gwefan UMAber.**

Cofiwch wirio gwefan UMAber am yr wybodaeth ddiweddaraf.



## **Esbonio Jargon**

### **Datganiad Blynyddol**

Dogfen ar sail tystiolaeth a gaiff ei chreu i weithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol i weithredu argymhellion sydd â'r nod o lywio eich profiadau.

### **UMAbber yn Dathlu**

Wythnos a gynhelir tua diwedd yr ail dymor sydd â'r nod o ddathlu cyfraniad gwirfoddolwyr yr undeb, sy'n cynnwys y gwobrau dysgu dan arweiniad myfyrwyr.

### **Parth Academaidd**

Daw Cynrychiolwyr Athrofa a'r Swyddog Materion Academaidd ynghyd i drafod materion academaidd a pherfformiad y system Gynrychiolaeth Academaidd.

### **Gwelliant**

Proses o wella, yn benodol ynghylch ansawdd yr addysgu, yn ogystal ag unigolion mewn addysg.

### **Adroddiad ar Gyraeddiad mewn Addysg Uwch (HEAR)**

Dogfen yw hon a gewch ar ddiwedd eich astudiaethau yn Aberystwyth sy'n cofnodi eich holl gyraeddiadau fel myfyriwr.

### **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)**

Nhw sy'n gyfrifol am ddosrannu cyllid ar gyfer prifysgolion a cholegau addysg bellach ac uwch yng Nghymru.

### **Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA)**

Asiantaeth annibynnol sy'n sicrhau bod safon cymwysterau AU yn dderbyniol.

### **Strategaeth**

Cynllun gweithredu i wella a datblygu agwedd benodol. Mae'r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr yn enghraifft o hyn.



## Cysylltiadau Allweddol

### Undeb y Myfyrwyr – Swyddogion Llawn Amser a'r Dderbynfa

Enw	Rôl	Ffôn	E-bost
Sabina O'Donoghue	Llywydd	01970 621731	<a href="mailto:supresident@aber.ac.uk">supresident@aber.ac.uk</a>
Elizabeth Manners	Materion Academaidd	01970 621736	<a href="mailto:umacademaidd@aber.ac.uk">umacademaidd@aber.ac.uk</a>
Hannah Lunnon	Llesiant	01970 621741	<a href="mailto:umllesiant@aber.ac.uk">umllesiant@aber.ac.uk</a>
Rachel Barwise	Cyfleoedd i Fyfyrwyr	01970 621755	<a href="mailto:umcyfleoedd@aber.ac.uk">umcyfleoedd@aber.ac.uk</a>
Mared Edwards	Diwylliant Cymreig & UMCA	01970 621739	<a href="mailto:umcymraeg@aber.ac.uk">umcymraeg@aber.ac.uk</a>
Derbynfa'r Undeb		01970 621700	<a href="mailto:undeb@aber.ac.uk">undeb@aber.ac.uk</a>



Isod ceir rhestr o wasanaethau'r Undeb a'r Brifysgol sy'n sicrhau y caiff myfyrwyr gymorth i gael profiad gwych yma yn Aber. Mae hon yn adnodd da pan fyddwch yn cyfeirio myfyrwyr at wasanaethau cymorth, ond mae croeso i chi gysylltu â ni os ydych yn ansicr.

Cewch gyngor cyfrinachol, diduedd, am ddim ar faterion academaidd (gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau'r brifysgol), tai a llety yn ogystal ag arian a chyllid.

#### **Gwasanaeth Cyngori UMABer**

**Ffôn:** 01970 621700

**E-bost:** [undeb.cyngor@aber.ac.uk](mailto:undeb.cyngor@aber.ac.uk)

### **Gwasanaethau Cymorth y Brifysgol**

Am gyngor a chymorth ynglŷn ag amryfal agweddau ar fywyd myfyrwyr gan gynnwys arian, materion personol (gan gynnwys straen, gorbryder ac iechyd meddwl) ac ymholiadau sy'n gysylltiedig ag anabledd.

#### **Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr**

**Ffôn:** 01970 621761

**E-bost:** [cymorth-myfyrwyr@aber.ac.uk](mailto:cymorth-myfyrwyr@aber.ac.uk)

#### **Gwasanaeth Llesiant i Fyfyrwyr**

**Ffôn:** 01970 621761

**E-bost:** [llesiantmyfyrwyr@aber.ac.uk](mailto:llesiantmyfyrwyr@aber.ac.uk)

#### **Gwasanaethau Hygyrchedd**

**Ffôn:** 01970 621761

**E-bost:** [anabledd@aber.ac.uk](mailto:anabledd@aber.ac.uk)

### **Swyddogion Gwirfoddol Undeb y Myfyrwyr**

[www.umaber.co.uk/llywioaber/swyddogionmyfyrwyr/swyddogiongwirfoddoli/](http://www.umaber.co.uk/llywioaber/swyddogionmyfyrwyr/swyddogiongwirfoddoli/)

